Cyngor Cymuned Ganllwyd

Mai 14eg 2025

**Presennol**

Cyng D.Morris, S.Roberts,G.Jones,C.Dixon,D.Griffiths,C.Edwards a S.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Cofnodion Ebrill 2025**

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod**.

Dim.

**Materion yn codi.**

Maes parcio Dolfrwynog- neges wedi ei dderbyn gan Nicola Maysmor (CNC) yn egluro fydd gwaith i glirio’r ardal yn cychwyn yn y dyddiau nesaf.

Adolygiadau ffiniau cymunedol- Derbyniwyd e-bost gan Mr Sion Huws (Cyngor Gwynedd) yn nodi gwrthwynebiadau Cyngor Gwynedd i’r syniad o unrhyw fath o gyfyniad hefo cyngor Llanelltyd/Bontddu.

Ymddiheurodd Mr Roberts ar camgymeriad wrth gasglu a dadansoddi ymateb Cyngor Ganllwyd i’r syniad yma yn 2023.

**Cynghorydd Sir.**

Grantiau- Eglurodd Cynghorydd Griffiths y grantiau oedd ar gael gan Cyngor Gwynedd e.e Cronfa Cist Gwynedd hyd at £10,000 a’r gael, Cronfa adfywio cymunedau Gwynedd hyd at £100,000 a’r gael.

Mae’r manylion llawn a’r gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

Tai Teg- Eglurodd y cynghorwr y syniadau yn ymwneud ar prosiect hwn a’r amcan o helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartrefi eu hunain.

Am ragor o wybodaeth, y clerc i wahodd Heledd Parry i siarad a’r cyngor am y cynllun hon.

Adran Priffyrdd- Mae’r adran wedi derbyn £2.1m ychwanegol am y flwyddyn ariannol hon.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Ebrill 2025

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: | £3274.67 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Rodd M.Ward | £250.00 |
| | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £6.60 |
| E.W.Owen | £228.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £3190.07 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Ffurflen flynyddol Awdit Cymru 2024-25.

Archwiliodd y cynghorwyr y manylion ariannol a oedd wedi’u cynnwys ar y ffurflen a chytunasanant eu bod yn gywir.

Llofnododd y cadeirydd a’r Swyddog arainnol cyfrifol y ffurflen.

**Fforwm cymunedol y Parc Cenedlaethol.**

Rhoddodd y cynghorydd Roberts grynodeb o amcanion a nodau'r fforwm hwn a bydd yn ei ddosbarthu mewn e-bost.

**Materion Cymunedol.**

Cyng Dixon—Coed wedi cwympo ar draws llwybr rhif 80 Mynydd Penthros.

Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd.